

## Datganiad newyddion

**Dyddiad:** 15 Gorffennaf 2020

**Teitl:** Boddhad myfyrwyr yng Nghymru yn 2020

Mae boddhad myfyrwyr israddedig mewn prifysgolion a cholegau yng Nghymru yn parhau i fod yn uchel, gyda 84% o fyfyrwyr blwyddyn olaf yn dweud eu bod yn fodlon â'u cwrs eleni.

Mae'r ffigur hwn rhywfaint ar y blaen i'r DU yn gyffredinol, ac mae i lawr un pwynt canran ers 2019.

Mae'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr yn agored i fyfyrwyr israddedig blwyddyn olaf sy'n derbyn addysg uwch gan ddarparwyr yn y DU.

Roedd yr arolwg ar agor rhwng 6 Ionawr a 30 Ebrill 2020, a dadansoddwyd y canlyniadau i benderfynu a oedd y pandemig wedi cael effaith ar eu dibynadwyedd.

Daethpwyd i'r casgliad y gellid cyhoeddi'r ystadegau heb gynnwys cafeatau eithriadol neu addasiadau.

Dywedodd Dr David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae'n bwysicach nag erioed fod myfyrwyr yn cael cyfle i roi adborth i'w darparwyr ynglŷn â'u cyrsiau. Mae'r canlyniadau'n helpu prifysgolion i wella'r cynnig ar gyfer myfyrwyr y dyfodol, ac mae cadernid y data yn golygu bod yr arolwg yn offeryn gwerthfawr y gall myfyrwyr ymddiried ynddo wrth wneud penderfyniadau ynghylch ym mha le i astudio ac ym mha bwnc.

"Rydym yn falch o weld bod lefelau boddhad myfyrwyr yn gyffredinol o fewn addysg uwch yng Nghymru yn parhau i fod yn uchel.

“Rydym yn gwybod y cafodd nifer o ymatebion eu darparu cyn i'r argyfwng COVID-19 roi terfyn ar addysgu wyneb yn wyneb. Gall newidiadau, ac ymatebion gan sefydliadau eu hunain i'r newidiadau hyn, godi pryderon ychwanegol o hyd. Gwyddom fod darparwyr wedi ymateb yn dda yn gyffredinol, nid yn unig o ran dangos arloesedd ym maes dysgu ac addysgu, ond hefyd o ran darparu cefnogaeth allgyrsiol i fyfyrwyr a gofal bugeiliol. Bydd angen i'r pwyslais hwn ar brofiad ehangach y myfyriwr barhau wrth i'r flwyddyn academiaidd newydd ddechrau i fwyafrif y myfyrwyr ymhen ychydig fisoedd yn unig.

“Yr hyn y byddaf yn ei ddweud yw bod yr arolwg wedi dangos o hyd fod profiad myfyrwyr yn gryfder arbennig o fewn y sector addysg uwch yng Nghymru, a mawr obeithiaf y bydd hynny'n parhau.”

Dyweddodd Amy Matthews o Rymni, a raddiodd eleni gyda gradd anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Mathemateg, Ymchwil Weithredol ac Ystadegau gyda Lleoliad Proffesiynol o brifysgol yng Nghymru: “Mae fy mhedair blynedd yn y brifysgol wedi bod yn rhagorol. Mae bod yn fyfyrwr israddedig ym maes mathemateg wedi rhagori ar fy nisgwyliadau; mae'r ffrindiau a gwrddais, atgofion gydol oes a'r profiad academiaidd eithriadol yn gyfrifol am hynny.

“Gwnaeth y cyfle i ddilyn blwyddyn mewn diwydiant gyda CCAUC fy ngalluogi nid yn unig i gymhwyso fy ngradd ym myd gwaith, ond gwnaeth fy helpu i benderfynu ar ba yrfa y byddaf yn ei dilyn ar ôl graddio. Mae'r semester olaf hwn wedi'i gymylu gan bandemig y coronafeirws, ond mae fy mhrifysgol wedi sicrhau bod y newid i ddysgu ar-lein wedi bod yn llyfn ac yn hawdd wrth gynnal ei safonau academiaidd uchel. Wrth edrych nôl ar fy mhrofiad yn y brifysgol, byddwn i'n argymhell y llwybr hwn i bawb.”

Mae boddhad cyffredinol myfyrwyr ymhlith darparwyr addysg uwch yng Nghymru wedi bod yn gyson rhwng 82% ac 86% trwy gydol cyfnod yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, gyda ffigurau yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn arbennig yn rhagori ychydig ar foddhad cyffredinol ar gyfer y DU.

**Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr 2020: Data cymharol ar gyfer pob categori a gwmpesir gan yr arolwg (sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach wedi'u cyfuno)**

Cwestiynau		2019 y DU % Bodlon	2019 Cymru % Bodlon	2020 y DU % Bodlon	2020 Cymru % Bodlon
1-4	Yr addysgu ar fy nghwrs	84	85	84	85
5-7	Cyfleoedd dysgu	83	84	83	84
8-11	Asesu ac adborth	73	75	73	75
12-14	Cymorth academaidd	80	82	79	81
15-17	Trefn a rheolaeth	75	76	74	75
18-20	Adnoddau dysgu	86	86	86	86
21-22	Cymuned sy'n dysgu	76	79	76	78
23-25	Llais y myfyriwr	74	77	74	76
26	Undeb y Myfyrwyr	56	59	56	60
<b>27</b>	<b>Bodlonrwydd cyffredinol</b>	<b>84</b>	<b>85</b>	<b>83</b>	<b>84</b>
28-33	Lleoliadau ymarferol gyda'r GIG	87	87	85	84

Cyfrifir y ganran sy'n fodlon drwy gyfuno ymatebion 'cytuno'n gryf' a 'chytuno'n bennaf'.

## Diwedd

### Nodiadau:

1. Mae'r ACF yn cynnwys mwyafrif yr israddedigion yn eu blwyddyn olaf sy'n astudio am gymwysterau addysg uwch yn sefydliadau addysg uwch y DU, ac mewn colegau addysg bellach yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cyllidir yr arolwg, sy'n cael ei gynnal gan IPSOS Mori, gan y pedwar corff cyllido/rheoleiddio addysg uwch yn y DU (CCAUC, Office for Students, Cyngor Cyllido'r Alban a'r Adran ar gyfer yr Economi yng Ngogledd Iwerddon), a Health Education England.
2. Mae'r canlyniadau ar gael ar [wefan Office for Students](#). Bydd y data yn cael ei gyhoeddi ar wefan Discover Uni maes o law. Mae Discover Uni yn rhoi gwybodaeth gymharol i helpu myfyrwyr i wneud penderfyniadau am beth a ble i astudio.
3. Y trothwy ar gyfer cyhoeddi ar lefel sefydliad yw bod o leiaf 10 myfyriwr wedi ymateb, a dylai'r rhain gynrychioli o leiaf hanner y myfyrwyr sy'n gymwys i gymryd rhan.
4. Mae ymatebion ar lefel sefydliad ar gyfer y 27 o gwestiynau wedi cael eu meincnodi. Cyhoeddir data wedi'u meincnodi ar gyfer canlyniadau 2019 a 2020.
5. Mae'r data boddhad myfyrwyr ar gyfer y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'u cynnwys yn y ffigurau ar gyfer y Brifysgol Agored (ond ledled y DU maent wedi'u rhestru fel 'England HEI').
6. Mae adolygiad y Swyddfa Myfyrwyr (OfS) o'r data wedi'u harwain i ddod i'r casgliad y gallai'r canlyniadau gael eu cyhoeddi'n llawn, heb unrhyw addasiadau. Ni wnaethant ddod o hyd i dystiolaeth fod y pandemig wedi cael effaith ar ddibynadwyedd yr ystadegau. Ni wnaethant ddod o hyd i dystiolaeth chwaith fod y pandemig wedi effeithio'n gryf ar y canlyniadau, i'r graddau fod angen cafeatau eithriadol neu addasiadau. Er bod eu dadansoddiad wedi datgelu rhai problemau posibl gyda'r canlyniadau, fel effaith dull yr ymateb a'r cyfraddau ymateb amrywiol ar draws grwpiau o fyfyrwyr, roedd y rhain i gyd yn amrywiadau ar themâu a oedd yn bresennol yn ystod blynyddoedd blaenorol. Byddant yn parhau

i asesu'r rhain ac i archwilio mesurau lliniaru posibl fel rhan o waith arferol y Swyddfa Myfyrwyr (OfS) i gynnal a datblygu'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS).

**Cyswilt** Emma Rączka, Uwch Reolwr Cyfathrebu,  
029 2085 9667 [emma.raczka@hefcw.ac.uk](mailto:emma.raczka@hefcw.ac.uk)

### **Am CCAUC**

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru – CCAUC – yw'r corff cyhoeddus sy'n gweithredu rhwng prifysgolion a Llywodraeth Cymru. Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd darparwyr addysg uwch, sicrhau bod fframwaith yn ei le ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch, a chraffu ar berfformiad prifysgolion. Rydym hefyd yn darparu cyllid ar gyfer addysgu ac ymchwil addysg uwch, ac yn defnyddio ein dylanwad a'n harbenigedd i helpu i roi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch ar waith, er lles cymdeithas yn ehangach ac er lles yr economi.